

DARPL – NODIADAU I ATHRAWON i gyd-fynd â'r sleidiau PowerPoint. (Dylech deilwra'r sleidiau yn unol â'ch anghenion / oedran y dysgwyr, gan mai arweiniad yw'r nodiadau)

John Ystumllyn

Dr Huw Griffiths a Dr Susan Davis

Nodyn – Rhoddir casgliad o awgrymiadau ar gyfer cwestiynau i athrawon mewn glas fel isod:

Sleid 1	Sleid clawr
Sleid 2	Canllaw ar sut i ddefnyddio'r sleidiau ppt
Sleid 3	<i>Beth yw'r cysylltiad rhwng? Paentiad o'r 18^{fed} ganrif o ddyn Du a rhosyn melyn? – Caiff hyn ei esbonio yn ystod y PowerPoint. Efallai yr hoffai dysgwyr ddyfalu beth yw'r cysylltiad yn y lle cyntaf.</i> John Ystumllyn yw'r dyn yn y llun. Cafodd John ei gipio a'i gludo i ogledd Cymru yn y 18^{fed} ganrif o Orllewin Affrica (mae'n debyg) pan oedd yn fachgen ifanc. Ychydig a wyddys am ble yng Ngorllewin Affrica y cafodd John ei gipio, ond yn ôl cofnodion lleol, nodwyd ei fod yn cofio 'bod wrth ymyl afon yn y goedwig pan ddaeth y dynion gwyn a mynd ag ef'. Pan oedd yn 8 oed, cafodd ei anfon i ystâd Ystumllyn yng Nghricieth, fel 'rhodd' i'r teulu Wynn bonheddig. Y ffasiwn ar y pryd ym Mhrydain yn ystod Oes Siôr oedd i fechgyn bach Du weithio fel gweision bychain i deuluoedd cefnog, oherwydd ystyriwyd hyn fel symbol o statws. Mae'n debyg mai dyma pam y cafodd John ei roi fel 'rhodd' i'r teulu Wynn. Roedd bechgyn Du ynghyd â phobl Ddu eraill yn ddioddefwyr masnach caethweision yr Iwerydd. Chwaraeodd y DU ran hanfodol yn y fasnach hon yn ogystal â gwledydd Ewropeaidd eraill o tua 1500 tan 1900. Teulu Williams-Wynn oedd un o'r teuluoedd cyfoethocaf yng Nghymru yn y 18^{fed} ganrif. Roeddent yn berchen ar lawer o dir yng Nghymru. Mae'n nodedig bod bywyd John wedi'i ddogfennu a'i fod wedi dod yn ffigwr poblogaidd yn yr ardal. <i>Efallai yr hoffech ofyn i'r dysgwyr feddwl am resymau posibl dros hyn.</i> Ceir rhagor o fanylion am fywyd John yn y nodiadau pellach isod.
Sleid 4	Paentiad o ystâd y teulu Wynn yng ngogledd Cymru, lle bu John yn byw ac yn gweithio'n wreiddiol. Llun o'r eglwys leol, Eglwys Sant Cynhaearn, Ynyscynhaearn. Mae cofeb i John Ystumllyn yn Eglwys Sant Cynhaearn yn Ynyscynhaearn.
Sleid 5	Sleid 5 – llun o 'gang caethweision'. Cafodd dynion, menywod a phlant Du eu cipio a'u caethiwo yn ystod masnach caethweision yr Iwerydd a'u cludo mewn llongau i leoliadau amrywiol ar draws y byd. Cafodd John ei gludo i'r DU, ac yna cyrhaeddodd ogledd Cymru. Ceir gwybodaeth am y fasnach hon yn yr adran 'deunydd darllen pellach' isod.
Sleid 6	John Ystumllyn (dyddiad geni anhysbys – bu farw yn 1786). Fe'i galwyd yn Jac Du ar lafar. Gwyddom o ffynonellau hanesyddol iddo ddod yn arddwr yn y pen draw ac mai ef oedd y dyn Du cyntaf a gafodd ei gofnodi a'i ddogfennu i fyw yng ngogledd Cymru. Nid yw hyn yn golygu nad oedd pobl Ddu eraill yn byw yng ngogledd Cymru ar y pryd. Nid oedd pobl Ddu yn cael eu dogfennu.

	Nid ydym yn sicr o ble y daeth John yn wreiddiol, ond o Orllewin Affrica fwy na thebyg. Pan oedd yn dal yn fachgen ifanc, cafodd ei gludo i ystâd Ystumllyn y teulu Wynn yng Nghricieth; mae'n bosibl ei fod wedi byw yn rhywle arall yn y DU cyn hyn. Pan gyrhaeddodd ogledd Cymru, cafodd ei fedyddio a rhoddwyd yr enw Cymraeg John Ystumllyn iddo. Gwyddom hefyd ei fod yn siarad Cymraeg a Saesneg, am ei fod wedi cael rhyw fath o addysg. Dysgodd am arddwriaeth yng ngardd yr ystâd lle bu'n gweithio fel garddwr ac, yn ôl cofnodion lleol, 'tyfodd yn ddyn ifanc golygus a chryf'. Mae hefyd yn nodedig bod y teulu wedi trefnu i artist lleol baentio portread ohono. Efallai yr hoffech ofyn i'r dysgwyr, pam oedd hyn yn nodedig? Credir bod John tua 16 oed yn y llun sydd yn y PowerPoint. Mae hyn yn awgrymu bod gan y teulu lawer o feddwl ohono. Nid oedd hyn yn nodweddiadol, gan mai ychydig o baentiadau o bobl Ddu o Oes Siôr sydd wedi goroesi. Mae'r paentiad wedi'i ysgythru a'i ddyddio: 'John Ystumllyn 11th May 1754'. Erbyn hyn roedd wedi bod yn byw yn Ystumllyn am tua wyth mlynedd. Mae'r portread yn dangos ei fod yn gwisgo ei ddillad gwaith, ond mae hefyd yn ei ddarlunio fel dyn ifanc Du balch a hyderus – eto, rhywbeth prin iawn yn y cyfnod. Mae gwybodaeth leol o'r cyfnod yn awgrymu ei fod yn boblogaidd yn y gymuned a dechreuodd berthynas â merch leol o'r enw Margaret Gruffydd, gan fynd ymlaen i'w phriodi. Roeddent yn byw yn Ynysgain Fawr, lle buont yn gweithio fel stiwardiaid tir. Yn ôl cofnodion, cawsant saith o blant, a thyfodd pump ohonynt yn oedolion. Mae disgynyddion teulu Ystumllyn yn dal i fyw yn yr ardal leol. Bu farw John yn 1786 a chafodd ei gladdu yn Eglwys Sant Cynhaearn.
Sleid 7	Hiliaeth – Yn dechnegol, nid oedd y gair 'hiliaeth' yn bodoli yn y ddeunawfed ganrif, ond nid yw hynny'n golygu nad oedd yn digwydd yng Nghymru. (Mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn awgrymu ar hyn o bryd mai ym 1903 y cafodd y gair 'racism' ei ddiffinio gyntaf a'r term 'racist' ym 1919. Ymddengys mai prin y defnyddiwyd y ddau derm ar ddechrau'r 20^{fed} ganrif). Mae adroddiadau lleol o'r cyfnod yn awgrymu bod John wedi dioddef hiliaeth gan y gymuned leol, gydag adroddiadau sy'n disgrifio achosion pan ddigwyddodd hyn. Un digwyddiad o'r fath yw pan wnaeth bechgyn lleol 'baentio eu hunain yn ddu' ac esgus mai John oeddent wrth fynd i siopau yn yr ardal leol er mwyn archebu pethau yn ei enw. Mae'r straeon hyn yn awgrymu ei fod wedi wynebu hiliaeth yn ystod ei fywyd yn y gymuned fach wledig. Mae Henry Wigstead, yn ei lyfr 'Remarks on a tour to North and South Wales in the year 1797' yn rhoi cipolwg i ni ar agweddau ar y pryd, gan ysgrifennu: <i>"On our return to Dolghelly, we found the town in an actual state of riot and confusion; we could not approach our inn, for the croud of surrounding peasantry. On inquiring into the occasion of this tumult, we were informed that a Gentleman had just arrived, with – a black servant! This phenomenon had set the Welsh in an uproar, it being the first time such a tinted being had made his appearance here: the poor fellow was persecuted by them wherever he went, and both his master and him were actually forced to continue their route sooner than they intended, in consequence."</i>

	Mae hyn yn dangos agwedd negyddol iawn at hil. Sut mae agweddau at hil a hiliaeth wedi newid yn fwy diweddar yng Nghymru?
Sleid 8	Dyma garreg fedd John Ymstumllyn - Mae'r gofeb dywodfaen syml ym mynwent Eglwys Sant Cynhaearn, Ynyscynhaearn. Yma cafodd Ystumllyn ei fedyddio, ac yna'i gladdu yn 1786. Gosodwyd y gofeb ar ôl ei farwolaeth. Yn 1999, gwnaed yr eglwys yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae'r arysgrif ar y gofeb yn nodi ei fod yn 46 oed pan fu farw, ond mae dyddiad ei farwolaeth, 1791, yn anghywir. Caiff yr arysgrif ar y garreg fedd ei phriodoli i'r cerddor a'r bardd o Benrhyndeudraeth, Dafydd Siôn Siâms (1743–1831). Yn India gynna'm ganwyd a nghanrau Yng Nghymru'm bedyddiwyd Wele'r fan dan lechan lwyd Du oeraidd y'm daearwyd. Mae rhai anghysondebau yma. Credwyd bod John yn 8 oed pan ddaeth i Gymru. Byddai hyn yn golygu ei fod yn 54 oed, nid 46, pan fu farw. Mae'n debygol i'w oedran gael ei gyfrifo o'r dyddiad y cafodd ei fedyddio, ac nid ei ddyddiad geni. Mae'r geiriau 'Yn India gynna'm ganwyd' ar y garreg fedd, ond mae'n fwy tebygol bod hyn yn cyfeirio at India'r Gorllewin, a allai olygu ei fod wedi cael ei gipio o drefedigaeth yn India'r Gorllewin, lle cafodd ei eni a'i fagu.
Sleid 9	Ceir ffynhonnell hanesyddol arall sy'n crybwyll John mewn pamffled Cymraeg byr o'r enw <i>John Ystumllyn neu 'Jack Black'</i> (1888), gan yr awdur o Dremadog, Robert Isaac Jones (1813–1905), a gyhoeddwyd o dan ei enw barddol, Alltud Eifion. Ysgrifennwyd y pamffled hwn 102 o flynyddoedd ar ôl marwolaeth John Ystumllyn. Casglodd Jones y traddodiadau llafar amrywiol a oedd yn crybwyll John Ystumllyn a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth yn ei deulu, gan ei daid yn bennaf, sef meddyg John Ystumllyn pan oedd y garddwr yn nesáu at ddiwedd ei oes. Addaswyd y cyhoeddiad hwn yn ddiweddarach i <i>Y Gestiana</i> (1892) gan Jones, a gyfieithwyd i'r Saesneg. Cafodd y gwaith ei feirniadu gan The Daily Post, gan ddweud bod ei fywgraffiad o Ystumllyn 'yn llawn ystrydebau hiliol'. Disgrifiwyd y gwaith mewn erthygl olygyddol fel enghraifft o'r rhagfarn hiliol cynnar yn erbyn integreiddiad pobl Ddu yng Nghymru.
Sleid 10	Mae'r sleid hwn yn sôn am Rosyn John Ystumllyn - Caiff y rhosyn coffaol hwn ei blannu yng ngerddi Palas Buckingham. Mae'n rhosyn arbennig am ei fod wedi'i enwi ar ôl John Ystumllyn, sef un o'r garddwyr Du cyntaf i fyw ym Mhrydain, yng ngogledd Cymru. Arweiniwyd yr ymgyrch i enwi rhosyn ar ôl John gan Zehra Zaidi, sylfaenydd y grŵp 'We Too Built Britain'. Mae'r sefydliad yn adrodd straeon cudd pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y DU. Cafodd y rhosyn melyn ei arddangos yn Sioe Flodau'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn Chelsea, a chaiff ei blannu yng ngardd rosod Palas Buckingham. <u>We Too Built Britain</u>, o <u>Sant Cynhaearn, Ynyscynhaearn</u>

	Gallai dysgwyr ymchwilio i ffyrdd eraill y mae pobl Ddu wedi cael eu coffáu drwy gydol hanes Cymru?
Sleid 11	Sleid olaf. Noder, mae'r deunyddiau wedi cael eu cyd-greu ar gyfer DARPL ac ni ddylent gael eu hailddefnyddio y tu allan i'w cyd-destun.

Deunydd darllen pellach:

Green, A. (ar-lein) John Ystumllyn: An African in 18th Century Eifionydd. Gwallter, Blogfan a mwy o Abertawe. <https://gwallter.com/books/john-ystumllyn-an-african-in-18th-century-eifionydd.html>

Wigstead, H. (1800) Remarks on a tour to north and south Wales in the year 1797. Llundain, t.48. Ar gael ar-lein yn: https://books.google.co.uk/books?id=BN4uAAAAMAAJ&redir_esc=y

Gwefannau defnyddiol:

Y Ganolfan ar gyfer Astudio Etifeddiaeth Caethwasiaeth ym Mhrydain:
<https://www.ucl.ac.uk/lbs/>

Cyngor Haringey. Llinell amser hanes pobl Ddu. Pobl Ddu o Oes Siôr:
<https://www.haringey.gov.uk/culture/black-history/timeline>

Yr Archifau Gwladol – Canllaw ymchwilio ar Fasnach Caethweision yr Iwerydd ym Mhrydain:
<https://www.nationalarchives.gov.uk/help-with-your-research/research-guides/british-transatlantic-slave-trade-records/>

Hanes Masnach Caethweision ym Mhrydain. Amgueddfeydd Lerpwl.
<https://www.liverpoolmuseums.org.uk/history-of-slavery/transatlantic-slave-trade>

Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig Archwiliad o Goffáu yng Nghymru:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/y-fasnach-mewn-caethweision-ar-ymerodraeth-brydeinig-archwiliad-o-ggffau-yng-nghymru.pdf>

Twm Morys yn sgryrsiau 'The Essay' BBC Radio 3 am fywyd John Ystumllyn:
<https://www.bbc.co.uk/programmes/m0000d8m>

Buckingham Palace: Black Welsh gardener's rose planted
<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-61545591>